Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 426

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Gwasanaeth Rhybuddio a Cham-drin Perthynas (CARA) – Cytundeb Trawsffin**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cydweithio**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae darpariaeth gwasanaeth Rhybuddio a Cham-drin Perthynas (CARA) wedi ehangu'n genedlaethol yn y blynyddoedd diwethaf ac fel ymyrraeth cam-drin domestig ar gyfer Datrysiadau Tu Allan i'r Llys. Gydag amrywiadau gweithredol CARA rhwng heddluoedd ynghyd â nifer o wahanol ddarparwyr trwyddedig CARA, mae angen eglurder ac arweiniad er mwyn cefnogi cyflenwi CARA ar draws ffiniau.

Mae cytundeb trawsffin wedi'i ddatblygu i ddarparu prosesau clir ac effeithiol ar gyfer heddluoedd a darparwyr CARA. Gofynnwyd i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu lofnodi'r cytundeb hwn er mwyn sicrhau bod eu hardal heddlu a darparwyr gwasanaeth wedi ymrwymo i gyflenwi gwasanaeth trawsffin.
Bydd y Cytundeb Trawsffin yn:

- Sefydlu cyfrifoldebau heddluoedd a darparwyr CARA a gomisiynwyd;
- Amlinellu map proses i arwain penderfyniadau ar gyfer heddluoedd a darparwyr CARA a gomisiynwyd i gyfeirio troseddwr i gael mynediad at CARA gyda heddlu sy'n cymryd rhan;
- Mynnu cofrestru o bob ardal gan gynnwys comisiynwyr, heddluoedd a darparwyr CARA i gymryd rhan.

Mae'r cytundeb trawsffin wedi'i adolygu a'i gymeradwyo gan yr adran gwasanaethau cyfreithiol heb unrhyw oblygiadau ariannol wedi'u dynodi yn y cytundeb.

**Argymhelliad:**
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i lofnodi Cytundeb Trawsffin CARA a chydymffurfio â'r gofynion ynddo.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:**  **Dyddiad: 08/12/2025**